# Ysgol Griffith Jones

# Cylchlythyr Tymor yr Hydref

# Autumn Term Newsletter

# 2022

**Croeso**

Croeso mawr i'r 29 o blant newydd sydd wedi dechrau am y tro cyntaf ar ddechrau'r tymor. Pleser hefyd yw medru croesawu aelodau newydd o staff atom sef Miss Miriam Lennon-Jones, Miss Dawn Davies, Miss Ceri Rees, Mrs Christina John, Mrs Katie Thomas. Pob dymuniad da iddynt fel aelodau o deulu Ysgol Griffith Jones.

**Welcome**

A warm welcome to the 29 new pupils who joined us at the beginning of term. We also welcomed Miss Miriam Lennon-Jones, Miss Dawn Davies, Miss Ceri Rees, Mrs Christina John, Mrs Katie Thomas as new staff members. We wish them all the best as members of the Ysgol Griffith Jones family.

**Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2023**

Bu criw o ddisgyblion a staff yr ysgol yn gorymdeithio gyda Mistar Urdd trwy Gaerfyrddin ar fore Sadwrn braf, Medi'r 17eg, yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2023. Ar ôl cyrraedd parc y dref roedd cyfle i ymlacio a mwynhau gweithgareddau amrywiol.

**Urdd Eisteddfod Welcoming Festival 2023**

A group of pupils and staff from the school marched with Mistar Urdd through Carmarthen on a fine Saturday morning, on September 17th, at the Urdd Eisteddfod Welcoming Festival in preparation for the event in 2023. After arriving at the town park there was an opportunity to relax and enjoy various activities.



**Chwaraeon**

**Llysgenhadon Efydd**

Etholwyd ein Llysgenhadon Efydd ar ddechrau'r tymor. Llongyfarchiadau i Teegan Bowen, Gwion Davies, Adam Lewis a Riley Rees-Thomas. Maen nhw wedi dechrau ar y gwaith o drefnu sesiynau cadw'n heini i'r plant iau yn ystod yr awr ginio.

**Sports**

**Sports Ambassadors**

Our Sports Ambassadors for this year have been elected. Congratulations to Teegan Bowen, Gwion Davies, Adam Lewis and Riley Rees-Thomas. They have started on the task of organizing keep fit sessions for the younger pupils during the lunch hour.

**Llongyfarchiadau**

Ar Fedi'r 10fed ganwyd mab i Miss Carys Evans a'i phartner Lyn. Croeso mawr i Macs a llongyfarchiadau i'r teulu bach.

**Congratulations**

On September 10th a son was born to Miss Carys Evans and her partner Lyn. A big welcome to Macs and congratulations to the little family.

**Siarter Iaith**

Etholwyd ein Llysgenhadon Iaith sef Teegan Bowen, Gwion Davies, Shane Jones, Ruby Jones, Libby May Rees a Riley Rees-Thomas. Maen nhw eisoes wedi dechrau ar y gwaith o helpu'r ysgol gyfan i fynd am wobr aur y Siarter Iaith. Fe drefnwyd llu o weithgareddau i ddathlu 'Diwrnod Shwmae!' ar Hydref y 14eg. Bu pob dosbarth yn mwynhau dawnsio i ganeuon Cymraeg Cymru FM drwy'r prynhawn.

**The Welsh Language Charter**

Our Language Ambassadors were elected: Teegan Bowen, Gwion Davies, Shane Jones, Ruby Jones, Libby May Rees a Riley Rees-Thomas. They have already started on the important task of helping the school reach the 'Gold Award' in the County's Welsh Charter. A variety of activities were organized to celebrate 'Shwmae Day!'. The pupils enjoyed listening and dancing along to the Cymru FM playlist during the afternoon.

**Clybiau**

Mae'r clybiau ar ôl ysgol eisoes wedi cael eu cynnal i Fl3-6. Mae dros gant o blant wedi ymuno â'r clybiau canlynol – celf/cognino, dawnsio gwerin, chwaraeon, clwb digidol a chanu cŵl. Hefyd cynhelir sesiynau hyfforddi pêl-rwyd a rygbi yn wythnosol.



**Clubs**

After school clubs have already run for Years 3-6. Over a hundred children have joined the following clubs – art/cookery, folk dancing, sports, digital club and Cool Singing. Netball and rugby training sessions are also held weekly.

**Traws gwlad**

Ym mis Medi cafodd y tîm gyfle i redeg traws gwlad ar gaeau y Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin gyda disgyblion o ysgolion eraill yr ardal.

Bu'r tîm traws gwlad yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Traws Gwlad Sir Gâr ym Mharc Gwledig Penbre, ynghyd â 40 o ysgolion cynradd eraill.

Dyma'r canlyniadau:

Tîm Bechgyn Bl3 – 2$^{ail}$

Tîm Bechgyn Bl4 – 2$^{ail}$

Bechgyn Bl5 – Cian Edwards 5$^{ed}$

Tîm Bechgyn Bl6 – 1$^{af}$

**Cross-Country**

In September the team had the opportunity to run cross country on the grounds of the Leisure Center in Carmarthen with pupils from other schools in the area.

The cross-country team competed in the Carmarthenshire Cross Country Championship at Pembre Country Park, along with 40 other primary schools.

Here are the results:

Yr3 Boys' Team – 2$^{nd}$

Yr4 Boys' Team – 2$^{nd}$

Yr5 Boys – Cian Edwards 5$^{th}$

Yr6 Boys' Team - 1st



**Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd**

Roedd hi'n ddiwrnod lliwgar iawn yn yr ysgol pan wisgodd y disgyblion ddillad coch, gwyn a gwyrdd er mwyn codi arian tuag at Apêl Ardal Sanclêr – Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023. Diolch am bob cyfraniad.

Urdd

**Red, White and Green Day**

It was a very colorful day at school when pupils wore red, white an green clothes in order to raise money towards the St. Clears District Appeal - Carmarthenshire Urdd Eisteddfod 2023. Thank you for every contribution.

**Gwersi Nofio**

Cafodd plant Blynyddoedd 4 a 5 ddechrau prysur i'r flwyddyn ysgol drwy fynychu gwersi nofio bob dydd am dair wythnos.

**Swimming Lessons**

Year 4 and 5 children had a busy start to the school year by attending swimming lessons every day for three weeks.

**Ymweliadau**

Daeth cwmni theatr 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol i gynnal gweithdy drama 'Y Mabinogi' gyda dosbarthiadau Pwyll a Branwen. Y bore canlynol aeth y disgyblion i Gastell Talacharn i wylio'r sioe 'Straeon y Mabinogion.' Mwynhaodd y plant yn fawr iawn ac 'roedd yn berfformiad gwych.



Aeth dosbarthiadau Arthur, Gwenllian, Hywel, Rhiannon ac Olwen ar drip i Techniquest yng Nghaerdydd fel rhan o'u gwaith thema ar y corff. Cafodd bawb hwyl a sbri yn rhoi cynnig ar ac yn datrys amrywiaeth o bosau yn ystod y dydd. Roedd y sioe wyddonol 'Pethau Amdanaf I' yn goron ar y diwrnod arbennig hwn.

**Visits**

The 'Mewn Cymeriad' theater company came to the school to hold a 'Y Mabinogi' drama workshop with Dosbarth Pwyll and Branwen. The following morning the pupils went to Laugharne Castle to watch the show 'Straeon y Mabinogion.' The children enjoyed it very much and it was a great performance.

Arthur, Gwenllian, Hywel, Rhiannon and Olwen's classes went on a trip to Techniquest in Cardiff as part of their theme work on the body. Everyone had fun trying and solving a variety of puzzles during the day. The scientific show 'Pethau Amdanaf I – Things About Me' was a highlight on this special day.



**<u>Rygbi</u>**

Llongyfarchiadau i'r bechgyn canlynol am gael eu dewis ar gyfer tîm rygbi'r Rhanbarth: Gwion Davies, Iestyn Davies a Morgan Jones. Bu tîm rygbi cymysg yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd ar gaeau y Cwins, Abergwili. Gwnaeth y tîm yn arbennig o dda i ennill tair gêm allan o chwech.



**Rugby**

Congratulations to the following boys for being selected for the District rugby team: Gwion Davies, Iestyn Davies and Morgan Jones.

The school's mixed rugby team competed in the Urdd tournament on the Quins Fields, Abergwili. The team did exceptionally well to win three games out of six.

Bu tîm rygbi'r merched yn cystadlu hefyd gan fwynhau y profiad yn fawr.




The girls' rugby team also competed in the Urdd Tournament enjoying the experience greatly.

**TT Rockstars**

Daeth staff a disgyblion Bl3 – 6 i'r ysgol fel sêr. Cawsant ddiwrnod prysur a chyffrous yn ail-lawnsio 'TTRockstars' – adnodd i ddysgu ac atgyfnerthu tablau. Cynhaliwyd cwis rhwng staff a rhai o'r disgyblion yn y prynhawn a'r disgyblion oedd yn fuddugol!



**TT Rockstars**

Staff and pupils from Years 3 - 6 came to the school dressed as rock stars. They had a busy and exciting day re-launching 'TTRockstars' - a resource to learn and reinforce times tables. A quiz was held between staff and pupils in the afternoon and the pupils were the winners!

**Prosiect Cwpan y Byd**

Mae disgyblion Bl5 wedi bod yn brysur yn dysgu cân a ysgrifennwyd i longyfarch Tîm Pêl-droed Cymru ar gyrraedd Cwpan y Byd eleni, ynghyd â nifer o ysgolion y sir. Yna cawsant gyfle i fynd i Ganolfan S4C yr Egin i ffilmio, canu a mwynhau wrth recordio'r gân. Cafodd y recordiad ei ryddhau ar Ddiwrnod Shwmae Sumae, sef Hydref y 15$^{\text{fed}}$.



**World Cup Project**

Year 5 pupils have been busy learning a song written to congratulate the Welsh Football Team on reaching the World Cup this year, along with a number of schools in the county. They then had the opportunity to go to yr Egin Center at S4C Carmarthen, to film, sing and enjoy while recording the song. The recording was released on Shwmae Sumae Day, October 15$^{\text{th}}$.



**Diwrnod Shwmae Sumae**

Roedd hi'n hyfryd clywed disgyblion yr ysgol yn cyfarch ei gilydd a'r staff gyda gwên a 'Shwmae'. Roedd y dosbarthiadau yn llawn cyffro a chynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn.

**Shumae Sumae Day**

It was lovely to hear the pupils of the school greeting each other and the staff with a smile and 'Shwmae'. The classes were full of excitement and a variety of activities were held to celebrate this special day.

**Diwrnod T Llew Jones**

Ar Hydref 11eg cafodd Dosbarth Pwyll (Blwyddyn 6) gyfle i ymweld â Chanolfan S4C Yr Egin er mwyn cymryd rhan yng ngweithdai Dathlu diwrnod T Llew Jones.



Dechreuwyd y sesiwn gyda darlleniad diddorol o'r stori 'Lleuad yn Olau.' Yna cafwyd cyfle i greu stori hudol ac i gynllunio a chreu drws 'Tylwyth Teg'. Bu'r plant yn brysur ac yn frwdfrydig yn ystod y ddau weithdy.
Prynhawn wrth eu boddau!

**T Llew Jones Day**

On 11th October Dosbarth Pwyll (Year 6) had the opportunity to visit Yr Egin, the S4C Center in order to take part in T Llew Jones Day Celebration workshops.

The session began with an interesting reading of the story 'Lleuad yn Olau.' Then there was an opportunity to create a magical story and to plan and create a 'Fairytale' door. The children were busy and enthusiastic during the two workshops. An afternoon they enjoyed!

**Canolfan Y Gât**

Aeth disgyblion Dosbarth Culhwch i ganu yng Nghanolfan Y Gât, Sanclêr. Mwynhaodd y gynulleidfa'r te prynhawn tra'n gwrando ar y canu.

**Y Gât Centre**

Pupils from Dosbarth Culhwch went to sing in Canolfan Y Gât, St Clears. The audience enjoyed the afternoon tea whilst listening to the choir singing.

**Gêmau Buarth**

Daeth Betsan o Fenter Gorllewin Sir Gâr i'r ysgol i gynnal sesiynau Gêmau Buarth Traddodiadol. Cafodd ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen hwyl a sbri yn chwarae gêmau newydd cyffrous.

**Playground Games**

Betsan from Menter West Sir Gâr came to the school to hold Traditional Playground Games sessions. Foundation Phase pupils had fun playing exciting new games.

**Lawnsio llyfr Newydd**

Fel rhan o ddathliadau Wythnos Mabwysiadu Genedlaethol, bu disgyblion dosbarthiadau Arthur, Gwenllian, Hywel, Olwen a Rhiannon yn lawnsiad y llyfr newydd 'Y Bwmpen Berffaith Amherffaith' gan Rachel Cook yn neuadd yr ysgol. Diolch i Sian Gibbon am gyflwyno'r stori hydrefol, swynol hon sy'n annog hunan-dderbyniad ac i ni gofleidio ein gwahaniaethau.



**New book launch**

As part of the National Adoption Week celebrations, pupils from classes Arthur, Gwenllian, Hywel, Olwen and Rhiannon attended the launch of the new book 'The Perfect Imperfect Pumpkin' by Rachel Cook in the school hall.  Thanks to Sian Gibbon for presenting this charming autumnal story that encourages self-acceptance and for us to embrace our differences.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Braf oedd croesawu rhieni disgyblion Blwyddyn 6 i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Cyflwynwyd eitemau amrywiol gan y disgyblion. Diolch yn fawr i'r Parchedig Guto Llywelyn am ei gyflwyniad diddorol. Casglwyd tuag at Fanc Bwyd Hendy-gwyn. Diolch am bob cyfraniad.

Diolch yn fawr i Helen Ryan o Fanc Bwyd Hendy-gwyn a ddaeth i gasglu'r holl fwyd ac am esbonio sut mae'r Banc Bwyd yn gweithredu.



**Thanksgiving Service**

It was nice to welcome the parents of Year 6 pupils to join us in our Thanksgiving Service this year. Various items were presented by the pupils. Many thanks to the Reverend Guto Llywelyn for his interesting presentation. Our collection this year was for Whitland Food Bank. Thanks for all the contributions.

Many thanks to Helen Ryan from Whitland Food Bank who came to collect all the food and for explaining how the Food Bank operates.

**Pêl-droed**

Llongyfarchiadau i Noah Brown ac Alfie Jones am gael eu dewis ar gyfer Carfan pêl-droed Ysgolion Sir Gaerfyrddin.



**Football**

Congratulations to Noah Brown and Alfie Jones for being selected for the Carmarthenshire Schools football Squad.

**Ffilmio**

Cafodd ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 ddiwrnod arbennig yn creu fideo addysgiadol am hanes Hywel Dda ar gyfer plant ysgolion Cymru. Cawsant eu ffilmio gan Gwmni Rondo yn yr ysgol ac yng Ngerddi Hywel Dda, Hendygwyn ar Dâf.



**Filming**

Pupils in Years 5 and 6 had a special day creating an informative video about the history of Hywel Dda for Welsh school children. They were filmed by Cwmni Rondo at the school and at Hywel Dda Gardens, Whitland.

**Y Frigad Dân**

Cyn y gwyliau cawsom ymweliad gan Elinor Goldsmith o'r Frigad Dân. Bu'n atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar Noson Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.

**The Fire Brigade**

Before the holidays we had a visit from Elinor Goldsmith from the Fire Brigade. She reminded the pupils of the importance of keeping safe on Halloween and Bonfire Night.

**Gwersyll Pentywyn**

Cafodd Blwyddyn 6 Mr Toms a Mrs Thomas amser hwylus iawn yng ngwersyll Pentywyn. Bu'r plant yn cymeryd rhan mewn tasgau awyr agored gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau cyd-weithio fel tîm. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu sgiliau gan gynnwys dringo, abseilio a chyfeiriannu. Diolch i staff y gwersyll am eu brwdfrydedd wrth hyfforddi'r plant.



**Pendine Camp**

Mr Toms and Mrs Thomas's Year 6 pupils enjoyed a visit to Pendine Camp. The children took part in outdoor activities with an emphasis on developing teamwork skills. The children had the opportunity to develop new skills including climbing, abseiling and orienteering. Thank you to the Centre staff for their enthusiasm in training the children.

**Parti Calan Gaeaf CRAFf**

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang ar gyfer Parti Calan Gaeaf y gymdeithas. Roedd y disgyblion a nifer o rieni wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisgoedd. Diolch i S&S Entertainments am gynnig eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

**PTFA Halloween Party**

The school hall was packed for the PTFA's Halloween Party. The pupils and many parents had made a special effort with their costumes. Thanks to S&S Entertainments for offering their service free of charge.

**Rhaglen Gwenyn Coed y Mêl**

Daeth Gemma Pugh o 2B Enterprising i'r ysgol i gyflwyno rhaglen sgiliau entrepreneuraidd i blant 5-8 oed. Cafodd ddisgyblion Dosbarth Gwenllian brynhawn hwylus yn ymarfer cyfathrebu â phobl newydd. Diolch yn fawr i'r cwmni lleol Obsidian Developments Ltd am ariannu'r fenter. Roedd yn hyfryd cwrdd â Helen Morgan o'r cwmni.




**The Bumbles of Honeywood programme**

Gemma Pugh from 2B Enterprising came to the school to present an entrepreneurial skills programme for 5-8 year olds. Pupils from Dosbarth Gwenllian had a fun afternoon practicing communicating with new people. Many thanks to local company Obsidian Developments Ltd for funding the initiative. It was lovely to meet Helen Morgan from the company.

**Jambori Cwpan y Byd**

Profiad bythgofiadwy oedd cael bod yn rhan o Jambori Cwpan y Byd yr Urdd i ddangos ein cefnogaeth i chwaraewyr pêl-droed Cymru. Roedd y plant yn morio can 'Yma o Hyd' gyda Dafydd Iwan, Mistar Urdd a chyflwynwyr Stwnsh Sadwrn.

**World Cup Jamboree**

It was an unforgettable experience to be part of the Urdd World Cup Jamboree to show our support for the Welsh football team. The children enjoyed singing 'Yma o Hyd' with Dafydd Iwan, Mistar Urdd and the presenters of Stwnsh Sadwrn.



**Pêl-rwyd yr Urdd**
Bu tîm pêl-rwyd merched yr ysgol yn cystadlu yn Nhwrneimant yr Urdd yn Y Pod ar gampws Prifysgol Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Mwynhaodd y merched chwarae'r dair gêm.




**Urdd Netball**
The school's women's netball team competed in the Urdd Tournament at Y Pod on the Trinity University of St David's campus in Carmarthen. The girls enjoyed playing all three games.

**Diwrnod y Cofio**
Cafwyd dwy funud o dawelwch ar Dachwedd yr 11eg gyda phob dosbarth yn cynnal gwasanaethau. Bu Efa Thomas, Ellie Davies, Adam Lewis a Cai Thomas yn cynrychioli'r ysgol yn y Gwasanaeth Cofio wrth gofeb Sanclêr.

**Sul y Cofio**
Diolch i'r Gymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau am gynrychioli'r ysgol a gosod torch o babis coch ar fore Sul y Cofio.



**Remembrance Day**
There was a two-minute silence on 11th November with all classes holding assemblies. Efa Thomas, Ellie Davies, Adam Lewis and Cai Thomas represented the school in the Remembrance Service at the St Clears memorial.

**Remembrance Sunday**
Thank you to the Parents, Teachers and Friends Association for representing the school and laying a wreath of red poppies on Remembrance Sunday morning.

**Sioe Y Dyn Bach Gwyrdd**
Aeth disgyblion yr Adran Iau i weld sioe 'Y Dyn Bach Gwyrdd' gan Caryl Parry Jones a Non Parry yn y Lyric. Mwynhawyd y perfformiad yn fawr iawn a chafwyd neges bwysig am wrth-fwlio hefyd.

**Y Dyn Bach Gwyrdd Show**
Key Stage 2 pupils went to see the show 'Y Dyn Bach Gwyrdd' by Caryl Parry Jones and Non Parry at the Lyric. The performance was very much enjoyed and there was also an important message about anti-bullying.

**Diogelwch ar y We**
Daeth PC Cath i ymweld â Dosbarthiadau Olwen a Rhiannon ym mis Tachwedd. Bu'n arwain sesiwn i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o Ddiogelwch ar y We.

**Internet Safety**
PC Cath visited Dosbarth Olwen and Rhiannon in November. She led a session to raise the pupils' awareness of Internet Safety.

**Cogurdd**

Buodd bron 40 o blant o flynyddoedd 4 I 6 wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer rownd gyntaf Cogurdd yr yr Ysgol. Thema'r gystadleuaeth eleni oedd 'Brechdan Blasus'. Cafwyd wledd o frechdanau amrywiol a phawb wedi paratoi'n drylwyr.

LLongyfarchiadau mawr I Enlli Morgan-Davies o Flwyddyn 5 am ennill y gystadleuaeth.

Fe aeth hi ymlaen I gynrychioli'r Ysgol yn ail rownd y gystadleuaeth ym Mro Myrddin ar ddechrau mis Rhagfyr ac fe wnaeth yn arbennig o dda unwaith eto.

**Cogurdd Cookery Competition**

Almost 40 children from years 4 to 6 competed in the first round of Cogurdd at the school. The theme of this year's competition was 'Delicious Sandwich'. There was a feast of various sandwiches and everyone did very well.



Congratulations to Enlli Morgan-Davies from Year 5 for winning the competition.

She went on to represent the school in the second round of the competition in Bro Myrddin at the beginning of December and she did extremely well once again.



**Chwarae hoci dros Gymru**

Fel rhan o'n thema 'Gorau Chwarae, Cyd Chwarae' daeth Mr Craig Jones i siarad â dosbarthiadau Gwenllian a Pwyll am ei daith i Dde Affrica ym mis Hydref. Bu'n cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd Hoci. Roedd Shane a Gethin yn falch iawn o lwyddiant eu tad.



**Playing hockey for Wales**

As part of our 'Gorau Chwarae, Cyd Chwarae' theme Mr Craig Jones came to speak to Dosbarth Gwenllian and Pwyll about his trip to South Africa in October. He represented Wales in the Hockey World Cup competition. Shane and Gethin were very proud of their father's success.

**Plant mewn Angen**

Daeth pawb i'r ysgol mewn pyjamas i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Cynhaliodd y Cyngor Ysgol wasanaeth arbennig a buont yn brysur iawn yn gwerthu raffl i'r rhieni a'r disgyblion. Isaac Daniels enillodd y wobr gyntaf sef cacen Pudsey a wnaed gan Mrs Lisa Jones. Llwyddwyd i godi £526.56.



**Children in Need**

Everyone came to school in pj's to raise money for Children in Need. The School Council held a special service and they were very busy selling a raffle to the parents and pupils.
Isaac Daniels won the first prize which was a Pudsey cake made by Mrs Lisa Jones. We managed to raise £526.56.

**Bingo Ben**

Cafwyd noson lwyddiannus iawn a chodwyd £3,360 gan y Gymdeithas Rieni. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn a phawb wrth eu boddau yn cymdeithasu wrth chwarae bingo. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi. Diolch arbennig i Mrs Elinor Evans a'r GRAaFf am eu gwaith caled yn sicrhau llwyddiant y noson.

**Bingo Ben**

Bingo Ben was a very successful evening again this year and £3,360 was raised by the PTFA. It was nice to see the hall full and everyone socializing, while playing bingo. Many thanks to everyone for supporting. Special thanks to Mrs Elinor Evans and the PTFA for their hard work ensuring the success of the evening.




**Cwis Dim Clem**

Bu 4 o blant o flwyddyn 6 Dosbarth Pwyll, sef Teegan Bowen, Elis Harries, Morgan Jones ac Oliver Thomas, yn cystadlu yng Nghwis Dim Clem Menter Iaith Gorllewin Cymru. Croesawyd timoedd o ysgolion lleol i'r ysgol fel rhan o'r gystadleuaeth, gan gynnwys Llys Hywel, Beca a Bro Brynach. Cafwyd cystadleuaeth dda ac agos ac roedd y plant yn ateb y cwestiynau yn frwdfrydig.

**Cwis Dim Clem**

4 children from Dosbarth Pwyll, namely Teegan Bowen, Elis Harries, Morgan Jones and Oliver Thomas, competed in Menter Iaith's Cwis Dim Clem Quiz. Teams from local schools were welcomed to the school as part of the competition, including Llys Hywel, Beca and Bro Brynach. There was good and close competition and the children answered the questions enthusiastically.

**Ffair Nadolig**
Roedd y neuadd yn orlawn ar noson Ffair Nadolig y GRAaFf. Roedd gan y siopwyr ddewis eang o stondinau amrywiol yn gwerthu nwyddau Nadoligaidd. Bu Côr yr Ysgol yn canu nifer o ganeuon Nadolig i ddiddanu'r siopwyr. Llwyddwyd i godi £752.60.

Yn ystod y ffair cyflwynwyd tisw o flodau i Mrs Jennifer Jones i ddiolch iddi am ei gwaith, dros nifer o flynyddoedd, fel Cadeirydd y CRAaFf. Ym mis Ionawr bydd Mrs Hayley Howells yn ymgymryd â rôl y Cadeirydd.

**Christmas Fair**
The hall was packed on the night of the PTFA's Christmas Fair. Shoppers had a wide choice of various stalls selling festive goods. The School Choir sang a number of Christmas songs to entertain the shoppers. We managed to raise £752.60.

During the fayre a bouquet of flowers was presented to Mrs Jennifer Jones to thank her for her work, over a number of years, as Chairman of the PTFA. In January Mrs Hayley Howells will be taking on the role of Chairman.

**Grease**
Cafodd ddisgyblion Blwyddyn 6 y cyfle i fynd i Ysgol Dyffryn Taf i weld cynhyrchiad o'r sioe 'Grease'. Cawsom wledd o ganu, dawnsio a pherfformio a braf oedd gweld ambell gyn-ddisgybl wrthi ar y llwyfan!

**Grease**
Year 6 pupils had the opportunity to go to Ysgol Dyffryn Taf to see a production of the show 'Grease'. We had a feast of singing, dancing and performing and it was nice to see a few former pupils on stage!

**Sioe Martyn Geraint**
Cafodd disgyblion Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2 amser wrth eu bodd yn gwylio a chymryd rhan yn sioe Nadolig Martyn Geraint ar ddiwedd y tymor. Gwnaethant gwrdd â nifer o gymeriadau bach diddorol, yn ogystal â chanu a dawnsio yn llawen. A'r neges oedd i'w glywed drwy'r sioe oedd ei bod hi'n cŵl i siarad Cymraeg. Diolchodd y plant iddo am brynhawn hyfryd, ac am anrheg arbennig i bob un.



**Martyn Geraint's Christmas Show**
Nursery, Reception, Years 1 and 2 pupils had a great time watching and taking part in Martyn Geraint's Christmas show at the end of term. They met a number of interesting little characters, as well as singing and dancing happily. And the message that could be heard throughout the show was that it's cool to speak Welsh. The children thanked him for a lovely afternoon, and for a special gift for everyone.

## Nadolig

Cynhaliwyd cyngherddau llwyddiannus iawn gyda disgyblion Blynyddoedd 1-6 yn cyflwyno ‘O Qatar i Gymru’. Sioe am daith pedwar cefnogwr pêl-droed Cymru ar eu ffordd adref o Qatar, ac yn ymweld â nifer o wledydd eraill a fu’n cystadlu yng Nghwpan y Byd i glywed am eu traddodiadau Nadolig.



Cyflwynodd y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn Stori’r Geni. Dyma’r tro cyntaf i’r plant hyn gael cyfle i ymddangos a pherfformio ar lwyfan.




## Christmas

Very successful concerts were held with pupils in Years 1-6 presenting a show 'From Qatar to Wales’. The show explained the trip of four Welsh football fans on their way home from Qatar, who visited a number of countries that competed in the World Cup to view their Christmas traditions.

The Nursery and Reception classes presented the Nativity Story. This is the first time these younger children have had the opportunity to appear and perform on stage.



Cynhaliwyd partïon ac fe fwynhaodd pawb ginio Nadolig blasus iawn yn eu siwmperi Nadolig.

Parties were held and everyone enjoyed a very tasty Christmas dinner in their Christmas jumpers.



**Côr yr Ysgol**

Mwynhaodd ein côr ysgol ymweld â thrigolion Y Garreg Lwyd yn Sanclêr. Buont yn canu nifer o ganeuon Nadoligaidd a chawsant eu gwobrwyo â lluniaeth blasus.

**School Choir**

Our school choir enjoyed visiting the residents of Y Garreg Lwyd in St Clears. They sang a number of Christmas songs and were rewarded with some delicious refreshments.



**Ffarwelio**

Hoffem ddymuno pob lwc i Miss Kate Evans sydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor. Bydd Miss Evans yn dechrau yn Ysgol Gymraeg y Ffwrnais, Llanelli, ar ôl y gwyliau.

Diolch yn fawr iawn iddi am ei holl waith caled fel rhan o'n tîm ni dros y blynyddoedd.

**Farewell**

We would like to wish good luck to Miss Kate Evans who is leaving us at the end of the term to take up a teaching post at Ysgol Gymraeg y Ffwrnais, LLanelli, after the holidays.

We would like to thank her for all her hard work as part of the Griffith Jones team over the years.




**Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.**

**Wishing everyone a Merry Christmas and a Happy New Year.**

# Tymor y Gwanwyn - 2023 - Spring Term

**Disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol ar ddydd Llun, 9fed o Ionawr 2023.**

**Pupils to return to school on Monday, 9th January 2023.**

**Diwrnodau cau HMS yn y dyfodol:**

Dydd Llun **17/04/2023**

Dydd Llun **05/06/2023**

**Future INSET closure dates:**

Monday **17/04/2023**

Monday **05/06/2023**

Dilynwch ni ar Trydar a Facebook i glywed am holl newyddion a gweithgareddau'r Ysgol:

Follow us on Twitter and Facebook to hear about all our news and activities:

**Trydar / Twitter**

**@YGJ92**

**Facebook**

**Ysgol Griffith Jones**